Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAWIAU

# Codi pryderon am sut mae cyfraith amgylcheddol yn gweithio: hysbysiad preifatrwydd

Sut y byddwn yn trin unrhyw ddata personol y byddwch yn ei ddarparu codi pryderon am sut mae cyfraith amgylcheddol yn gweithio.

Cyhoeddwyd gyntaf: 26 Chwefror 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 25 Hydref 2021

Nid yw Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddarparu unrhyw ddata personol penodol i gyflwyno pryder am y ffordd mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall eich cyfeiriad e-bost fod yn gyfystyr â data personol ac felly bydd hyn, ynghyd ag unrhyw ddata personol rydych yn dewis eu darparu, yn cael ei reoli yn unol â'r holl ddeddfwriaeth diogelu data sydd ar gael. Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar ei gyfer a byddwn yn ei brosesu yn unol â'n tasg gyhoeddus a'r awdurdod swyddogol a freiniwyd ynom er mwyn delio â'ch pryder ac unrhyw faterion sy'n codi ohono.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/codi-pryderon-am-sut-mae-cyfraith-amgylcheddol-yn-gweithio-hysbysiad-preifatrwydd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Er y bydd y pryderon a godwch yn gwbl ddienw cyn iddynt gael eu trosglwyddo i'r Asesydd Interim i'w hadolygu, efallai y bydd adegau pan fydd angen mwy o wybodaeth ar yr Asesydd Interim i ystyried y pryder a godwyd ac efallai y bydd am gysylltu â chi.  Os felly, byddwn yn cysylltu â chi i ofyn am eich caniatâd i rannu eich data â'r Asesydd Interim.  Bydd unrhyw ohebiaeth rhyngoch chi a Llywodraeth Cymru neu chi a'r Asesydd Interim yn cael ei storio'n ddiogel gan Lywodraeth Cymru.

Ni fydd yr adroddiad ar eich pryder a'r adroddiad blynyddol yn cynnwys eich data personol.

Caiff ffeiliau achos ynghylch pryderon (gan gynnwys eich data personol) a gyflwynir i Asesydd Diogelu Amgylcheddol Dros Dro Cymru eu cadw am hyd at 3 blynedd ar ôl i'ch achos gael ei ddatrys yn llwyr. Fodd bynnag, o ran ymholiadau syml y gellir ymateb iddynt ar unwaith, byddwn yn dileu eich data personol fis ar ôl i'r ymateb gael ei anfon atoch. Byddwn yn eich hysbysu os bydd angen i ni gadw gwybodaeth am gyfnodau hirach o amser am ba bynnag reswm.

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gwybod pa ddata personol a gedwir amdanoch gan Lywodraeth Cymru a chael gafael arnynt
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan amgylchiadau penodol) i wrthwynebu i'r data gael eu prosesu neu i gyfyngu ar hynny
- (o dan amgylchiadau penodol) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan amgylchiadau penodol) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

Os hoffech gysylltu â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'ch hawliau o dan ddeddfwriaeth diogelu data, gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/codi-pryderon-am-sut-mae-cyfraith-amgylcheddol-yn-gweithio-hysbysiad-preifatrwydd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Llywodraeth Cymru:

Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: **Swyddogdiogeludata@llyw.cymru**

Fodd bynnag, byddwn yn delio â chais sut bynnag y byddwch yn cysylltu â ni.

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
**Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/codi-pryderon-am-sut-mae-cyfraith-amgylcheddol-yn-gweithio-hysbysiad-preifatrwydd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Ynghylch y ddogfen hon

Mae’r ddogfen hon yn gopi o’r dudalen we **Codi pryderon am sut mae cyfraith amgylcheddol yn gweithio: hysbysiad preifatrwydd** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/codi-pryderon-am-sut-mae-cyfraith-amgylcheddol-yn-gweithio-hysbysiad-preifatrwydd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/codi-pryderon-am-sut-mae-cyfraith-amgylcheddol-yn-gweithio-hysbysiad-preifatrwydd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.